# BIL ADDYSG AWYR AGORED BRESWYL (CYMRU)

## DATGANIAD O FWRIAD POLISI AR GYFER IS-DDEDDFWRIAETH

## A CHANLLAWIAU SYDD I'W GWNEUD O DAN Y BIL HWN

TACHWEDD 2023

**BIL ADDYSG AWYR AGORED BRESWYL (CYMRU)**

**DATGANIAD O FWRIAD POLISI AR GYFER IS-DDEDDFWRIAETH A CHANLLAWIAU SYDD I'W GWNEUD O DAN Y BIL HWN**

## Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn rhoi syniad o'r bwriad polisi cyfredol ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth, y canllawiau a'r dogfennau eraill y mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i'w gwneud neu eu dyroddi, neu y mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru wneud hynny, o dan ddarpariaethau'r Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) ('y Bil'), fel y'i cyflwynwyd ar 24 Tachwedd 2023. Fe'i paratowyd i gynorthwyo pwyllgorau'r Senedd ac Aelodau o'r Senedd yn ystod y broses o graffu ar y Bil, a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol a'r Nodiadau Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef.

## Trosolwg o'r Bil

Mae'r Bil yn sefydlu fframwaith i ddarparu y bydd gan bob disgybl mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru hawl i brofi addysg awyr agored breswyl a fydd yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r Bil yn diwygio Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ("Deddf 2021"), i osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod pob disgybl mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru yn cael y cyfle i brofi addysg awyr agored breswyl unwaith, a hynny'n rhad ac am ddim. Mae camau o'r fath yn cynnwys gwneud cwrs addysg awyr agored breswyl yn rhan o Gwricwlwm Cymru o dan Ddeddf 2021; dyroddi Cod Addysg Awyr Agored Breswyl a fydd yn nodi sut y mae addysg awyr agored breswyl i'w darparu o dan ddarpariaethau newydd Deddf 2021; a dyroddi canllawiau i bersonau a bennir yn Neddf 2021 a fydd yn nodi'r manylion ynghylch sut y mae addysg awyr agored breswyl i'w darparu'n ymarferol.

Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth benodol i Weinidogion Cymru ddarparu cyllid ychwanegol i awdurdodau lleol i dalu cost y dyletswyddau a roddir ar awdurdodau lleol o ganlyniad i'r Bil. Mae hefyd yn ei gwneud yn glir na ellir codi tâl mewn cysylltiad â chost bwyd a llety ar brofiad addysg awyr agored breswyl a ddarperir o dan y Bil.

## Pwerau yn y Bil i wneud is-ddeddfwriaeth

Mae'r Bil yn cynnwys un pŵer yn adran 4 i wneud rheoliadau sy'n ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol y Senedd fel y'i nodir yn Rheol Sefydlog 27.5.

Mae'r Bil hefyd yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru yn adran 1(2) i gyhoeddi Cod Addysg Awyr Agored Breswyl a fydd yn ddarostyngedig i

weithdrefn negyddol y Senedd fel y'i nodir yn Rheol Sefydlog 27.2, a dyletswydd i ddyroddi canllawiau na fyddant yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn graffu gan y Senedd.

Mae'r wybodaeth a geir yn y Datganiad hwn ar y pwerau yn y Bil i wneud is-ddeddfwriaeth yn cyfateb i'r wybodaeth a geir ym Mhennod 6 o'r Memorandwm Esboniadol (Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth).

Mae Adran 5 o'r Bil (Dod i rym) yn pennu y daw adrannau 1 i 3 i rym ar ddiwedd y cyfnod o dri mis sy'n dechrau â'r diwrnod y caiff y Bil y Cydsyniad Brenhinol. Daw gweddill yr adrannau i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Bil y Cydsyniad Brenhinol.

### Adran 1(2) – y Cod Addysg Awyr Agored Breswyl

Mae'r ddarpariaeth hon yn mewnosod adran newydd 64A yn Neddf 2021 sy'n rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ddyroddi Cod Addysg Awyr Agored Breswyl sy'n nodi'r ffordd y mae cwricwlwm i wneud darpariaeth ar gyfer addysg awyr agored breswyl. Efallai y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried rhoi rhagor o fanylion yn y Cod am yr hyn y mae addysg awyr agored breswyl yn ei olygu, gan gynnwys diffiniad o bosibl.

Dim ond ar ôl iddo gael ei osod gerbron y Senedd y gellir dyroddi'r Cod, ac ni fydd yn cael ei ddyroddi os bydd y Senedd yn penderfynu peidio â'i gymeradwyo o fewn 40 diwrnod. Rhaid dyroddi'r Cod Addysg Awyr Agored Breswyl cyntaf o fewn blwyddyn i adran 1(2) ddod i rym.

Bwriad sylfaenol y Cod Addysg Awyr Agored Breswyl o ran polisi yw nodi'r ffordd y mae cwricwlwm i wneud darpariaeth ar gyfer addysg awyr agored breswyl. Bydd hyn yn helpu ysgolion i ddatblygu eu cwricwlwm a sicrhau cysondeb ledled y wlad o ran y modd y darperir addysg awyr agored breswyl. Mae'n debygol y bydd angen diwygiadau dros amser i adlewyrchu newidiadau o ran anghenion disgyblion, newidiadau yn y sector addysg awyr agored breswyl, neu newidiadau o ran cymdeithas. O'r safbwynt hwnnw, mae'n briodol bod y manylion hynny yn cael eu dyroddi ar ffurf Cod yn hytrach na'u cynnwys yn y Bil.

Rhaid i addysg awyr agored breswyl a ddarperir o dan Ddeddf 2021 gyd-fynd â'r Cod Addysg Awyr Agored Breswyl.

### Adran 1(3) – Dyletswydd i ddyroddi canllawiau mewn cysylltiad ag addysg awyr agored breswyl

Mae'r ddarpariaeth hon yn mewnosod adran newydd 71A yn Neddf 2021 sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau o dan adran 71 o Ddeddf 2021 mewn cysylltiad ag addysg awyr agored breswyl. Mae'n ofynnol

ymgynghori â'r personau y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol o dan adran 71 cyn y gellir dyroddi canllawiau o'r fath.

Bydd adran newydd 71A o Ddeddf 2021 yn rhestru'r materion y mae rhaid eu cynnwys neu faterion y caniateir eu cynnwys yn y canllawiau. Y bwriad yw y bydd Gweinidogion Cymru yn gallu dyroddi canllawiau sy'n rhoi manylion am yr agweddau ymarferol ar ddarparu addysg awyr agored breswyl o dan y Bil. Efallai y bydd angen i Weinidogion Cymru ddiwygio'r canllawiau er mwyn adlewyrchu amgylchiadau newidiol yn y sector addysg neu'r sector addysg awyr agored breswyl ac felly mae'n fwy priodol i'r manylion gael eu cynnwys mewn canllawiau yn hytrach nag ar wyneb y Bil.

Mae adran 71 o Ddeddf 2021 yn nodi pwy y mae’n rhaid iddynt roi sylw i'r canllawiau.

**Adran 4 – Pŵer i wneud darpariaeth drosiannol**

Mae adran 4 o'r Bil yn mewnosod adran newydd 74A yn Neddf 2021 i nodi y caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â dod ag adrannau newydd 64A, 64B a 71A o Ddeddf 2021 i rym.

Bwriad Adran 4 yw sicrhau hyblygrwydd wrth gyflwyno'r ddyletswydd newydd i gynnig addysg awyr agored breswyl i bob disgybl tra byddant wedi'u cofrestru mewn ysgolion a gynhelir. Drwy wneud hyn, y bwriad yw galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno'r ddyletswydd fesul cam os bydd angen.